**ATODIAD A**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Flynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2011/12

| | Ardal Archwilio | Cynnwys yr Archwiliad | Hanfodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfan-swm | Cytunwyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Gorsafoedd yn ôl y galw – Ynys Môn a Gwynedd** | Adolygiad o daliadau i ddiffoddwyr tân yn ôl y galw (fin8 electronig), cynnal rhestrau eiddo'r orsaf a pheiriannau (fel rhan o ddilyniad i archwilio rhestrau eiddo Gorsafoedd 2007/08) a chwblhau llyfrau log tanwydd cerbydau, cynnal a chadw a defnydd. **Prif negeseuon yr archwiliad oedd sefydlu canllawiau gweithdrefnol ar gyfer cwblhau a chyflwyno FIN8s, dylai'r FIN8 a gyflwynir gael ei argraffu a'i arddangos ar furiau Gorsafoedd, rhaid i'r Rheolwyr Ymateb fynd ati'n gyson i gynnal gwiriadau bob chwe mis o'r Rhestrau Stoc Peiriannau, a rhaid i bob gorsaf ar y system dyletswydd yn ôl y galw sicrhau bod cyfrifon y gronfa les yn cael ei harchwilio bob blwyddyn.** | **0** | **0** | **4** | **4** | **8** | **8** | **Boddhaol** |
| 2 | **Rheoli'r Fflyd** | Adolygiad o weithdrefnau rheoli'r fflyd o ran yswiriant, trwyddedu, rhestrau stoc, stoc partiau sbâr, prynu, diogelwch, cynnal a chadw, profion MOT, gwaredu, taflenni gwaith, a thechnegwyr. **Mae Adran y Fflyd yn gweithredu systemau priodol o reolaeth fewnol, gyda'r prif wendidau o ran archwiliadau trwyddedau gyrru a'r gofynion o ran Rheoli Risg Ffyrdd Galwedigaethol yn cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol.** | **0** | **0** | **4** | **2** | **6** | **6** | **Da** |
| 3 | **Cyfrif Terfynol – Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl** | Oherwydd bod Gwasanaethau Archwilio Mewnol Conwy wedi canfod anghysondebau gan un contractwr penodol ar gontractau adeiladu'r Awdurdod, | **0** | **0** | **4** | **0** | **4** | **4** | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cysylltodd Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael Conwy ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i holi a oedd gwaith tebyg yn cael ei wneud yn y Gwasanaeth Tân mewn perthynas ag unrhyw gontract a wneir gan y contractor hwn. Cynigiodd Pennaeth yr Adran Rheoli Cyfleusterau a Logisteg ar gyfer Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru fod Cyfrif Terfynol Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn cael ei asesu am unrhyw anghysondeb gan gontractwr.<br>**Ni welodd yr archwiliad unrhyw anghysondeb gan gontractwr. Fodd bynnag, gweld nifer o wendidau:**<br>➢ **Ni roddwyd tystysgrif am amser estyniad tan 3 mis ar ôl cwblhau'n ymarferol;**<br>➢ **Rhoddwyd nifer o Gyfarwyddiadau Pensaer ar ôl cwblhau'n ymarferol ar 27/8/08;**<br>➢ **Ni chafodd cyfarwyddiadau'r pensaer eu costio bob amser cyn i waith ychwanegol gael ei wneud;**<br>➢ **Ni chafael amrywiadau a gynigid i'r contract gwreiddiol eu cyflwyno bob amser i'r cleient i'w cymeradwyo cyn i unrhyw waith ychwanegol gael ei wneud.** | | | | | | | |
| 4 | **Ymchwiliad Arbennig – materion AD** | Yn Rhagfyr 2011, gofynnodd GTAGC am arfarniad o amser i ffwrdd *in lieu* a materion eraill yn ymwneud ag AD<br>**Mae ymchwiliad yr archwiliad wedi arwain at ymchwiliad disgyblu mewnol.** | **Ddim yn berth-nasol** | **Ddim yn berth-nasol** | **Ddim yn berth-nasol** | **Ddim yn berth-nasol** | **Ddim yn berth-nasol** | **Ddim yn berthnasol** | *** Ddim yn berthnasol** |
| 5 | **Menter Twyll Genedlaethol** | Mae'r Fenter yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr o 'baru data' a drefnir gan y Comisiwn Archwilio mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>**Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **Da** |

ATODIAD C

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## CYNGOR BWRDEISTREF SIR CONWY

### Crynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol 2011/12

| | Adran/Gwasanaeth | Dyddiau arfaethedig 2011/12 | Dyddiau gwirionedd ol 2011/12 |
|---|---|---|---|
| 1 | Gorsafoedd Tân yn ôl y galw – Ynys Môn a Gwynedd | 9 | 11 |
| 2 | Rheoli'r Fflyd | 10 | 12 |
| 3 | Y Fenter Twyll Genedlaethol (sy'n cynnwys ymholiadau'r sector cyhoeddus) | 3 | 6 |
| 4 | Contract Cyfrif Terfynol – Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl | 0 | 8 |
| 5 | Ymchwiliad Arbennig – Amser i ffwrdd *in lieu* a materion AD | 0 | 9 |
| 6 | Storfeydd | 8 | 0 |
| 7 | Gweithrediadau'r Ffreutur | 8 | 0 |
| 8 | Credydwyr ac Ymgynghoriaeth y Gyflogres – Trosglwyddo i System AS400 Conwy a FIN 8's Electronig | 5 | 2 |
| 9 | Archwiliadau dilynol –<br>Gorsafoedd yn ôl y galw<br>Rhyddid Gwybodaeth<br>Diogelwch TG | 6 | 4 |
| 10 | Cynllunio ac Adrodd yn ATAGC (gan gynnwys y Datganiad Blynyddol o Sicrwydd ac Asesiad Anghenion) | 6 | 6 |
| 11 | Cronfa wrth gefn | 3 | 0 |
| | **CYFANSWM DYDDIAU** | **58** | **58** |
| | **Dyddiau a ddyrannwyd 2011/12** | | **58** |
| | **Dyddiau Gwirioneddol 2011/12** | | **58** |
| | **Cyfanswm Dyddiau cario 'mlaen i 2012/13** | | **0** |

